| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **05 Chwefror 2026** |
| **Pwnc** | **Ail-benodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |
| **Swyddog Arweiniol** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |
| **Penderfyniad a Geisir** | **Cymeradwyo ail-benodiad Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |

1. Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd yn cynnwys pump 'aelod annibynnol' (unigolion sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol), ynghyd ag un aelod o gyngor cymuned a thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

2. Mae'r rheoliadau perthnasol (Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001) yn caniatáu i'r awdurdod benodi aelodau annibynnol am un cyfnod o rhwng pedair a chwe mlynedd a'u hail-benodi am un cyfnod olynol pellach, o ddim mwy na phedair blynedd. Mae'r gallu i ail benodi yn caniatáu parhad ond ar yr un pryd yn atal unigolyn rhag mynd yn rhy ymgorfforedig yn y pwyllgor. Mae hefyd yn golygu nad yw'r Pwyllgor yn colli'r profiad a'r arbenigedd y mae aelod wedi ei ennill yn ystod ei (g)wasanaeth.

3. Gosodir trefn statudol ar gyfer penodi aelodau annibynnol, sy'n cynnwys hysbysebu'r sedd wag a chyfweld ymgeiswyr gan banel penodi. Bydd y panel yn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn, sydd â'r hawl i benderfynu ar y penodiad. Serch hynny, nid oes rheidrwydd i ddilyn y broses hysbysebu a chyfweld hon wrth ail-benodi aelodau annibynnol.

4. Mae Hywel Eifion Jones wedi bod yn aelod ers 2019 ac wedi gwasanaethau fel Cadeirydd y Pwyllgor ers 2023. Daeth ei dymor cyntaf i ben ym mis Gorffennaf y llynedd ac nid yw'r sedd wag wedi ei llenwi yn y cyfamser. Er mai'r arfer yw cael penderfyniad i ail-benodi cyn i'r cyfnod cyntaf ddod i ben a sicrhau cyfnod di-dor o aelodaeth, nid yw'r rheoliadau yn rhwystro'r awdurdod rhag penodi aelod annibynnol am ail dymor lle bu bwlch fel yn yr achos hwn. Mae'r cyfnod yn olynol ac nid oes unrhyw gamau wedi eu cymryd yn y cyfamser i dorri yr olyniaeth. Byddai ail dymor aelodaeth dechrau o ddyddiad y penderfyniad i ail benodi. Mae'n gymwys i'w ail-benodi, ac wedi mynegi eu barodrwydd i wasanaethu am gyfnod pellach.

**Argymhelliad**

5. Ail benodi Hywel Eifion Jones fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am dymor pellach o bedair mlynedd o'r 5ed of Chwefror 2026.

**<u>Sylwadau Swyddogion Statudol</u>**

**Swyddog Monitro**

Swyddog Cyfrifol

**Prif Swyddog Cyllid**

Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol